

# Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Chyfiawnder yng Nghymru: Tai Cymdeithasol a Digartrefedd (Adroddiad Cryno ac Argymhellion) (Mawrth 2020)

Dr Sarah Nason ac Ann Sherlock (Prifysgol Bangor)

Dr Helen Taylor (Prifysgol Fetropolitan Caerdydd)

Dr Huw Pritchard (Prifysgol Caerdydd, Canolfan Llywodraethiant  
Cymru)



Canolfan  
Llywodraethiant Cymru  
Wales Governance  
Centre



Cardiff  
Metropolitan  
University

Prifysgol  
Metropolitan  
Caerdydd

## Cydnabyddiaethau:

Ariennir yr ymchwil hon gan Sefydliad Nuffield, ac fe hoffai ei hawduron ddiolch hefyd am gymorth amrywiol yn ystod y prosiect. Mae Sefydliad Nuffield yn ymddiriedolaeth elusennol annibynnol sydd â chenhadaeth i hyrwyddo lles cymdeithasol. Mae'n ariannu ymchwil sy'n llywio polisi cymdeithasol, yn bennaf ym maes Addysg, Lles a Chyfiawnder. Mae hefyd yn ariannu rhaglenni myfyrwyr sy'n darparu cyfleoedd i bobl ifanc ddatblygu sgiliau mewn dulliau meintiol a gwyddonol. Sefydliad Nuffield yw sylfaenydd a chyd-gyllidwr Cyngor Nuffield ar Fioethig a Sefydliad Ada Lovelace. Mae'r Sefydliad wedi ariannu'r prosiect hwn, ond barn yr awduron yw'r farn a fynegir ac nid y Sefydliad o reidrwydd. Ewch i [www.nuffieldfoundation.org](http://www.nuffieldfoundation.org)



Hoffai'r ymchwilwyr ddiolch i bawb a gymerodd ran yn y prosiect gan gynnwys cyfrannu at weithdai a grwpiau ffocws, a chwblhau arolygon, mae eu hamser a'u hystyriaeth wedi bod yn hynod werthfawr, a hebddynt hwy ni fyddai'r prosiect hwn wedi bod yn bosibl. Cynhaliwyd yr ymchwil hwn cyn effeithiau'r pandemig Covid-19. Rydym yn cydnabod bod hyn wedi arwain at newidiadau cyfreithiol nodedig, nas trafodir yma. Er bydd llawer o'r rhain dros dro, bydd rhai ohonynt o leiaf yn arwain at newid parhaol yng nghyd-destun tai cymdeithasol a digartrefedd yng Nghymru. Gobeithiwn y bydd ein hadroddiad yn sefyll fel dadansoddiad sylfaenol o faterion craidd yn y gyfraith a chyfiawnder, a bydd ein hargymhellion yn helpu i ddarparu sylfaen ar gyfer diwygiadau er budd cyfiawnder gweinyddol a chyfiawnder cymdeithasol yng Nghymru, beth bynnag a ddaw yn y dyfodol.

## CYNNWYS

Cyflwyniad.....	3
Cyfreithiau a Pholisïau Tai Cymdeithasol a Digartrefedd yng Nghymru.....	4
Cyfundrefnau Rheoleiddio a Chyfraith Weinyddol Gyffredinol.....	4
Penderfynwyr Gweinyddol a Gwaith Partneriaeth.....	5
Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth.....	6
Osgoi Anghydfodau a Datrysiaid Anffurfiol.....	9
Prosesau Cwynion Mewnol Cyrff Cyhoeddus ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.....	9
Unioni Camweddau mewn Meysydd Penodol o wneud Penderfyniadau Tai: Digartrefedd.....	10
Unioni Camweddau mewn Meysydd Penodol o wneud Penderfyniadau Tai: Dyraniadau tai.....	11
Unioni Camweddau Statudol yn y Berthynas rhwng Landlord a Tenant a Deddf Rhentu Tai (Cymru) 2016.....	13
Llysoedd a Thribiwnlysoedd.....	15
Adlewyrchiadau i Gloi.....	21
Cyfranogwyr yn ein Hymchwil.....	22

**Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Chyfiawnder yng Nghymru: Tai Cymdeithasol a  
Digartrefedd  
Adroddiad Cryno ac Argymhellion**

**Cyflwyniad**

1. Mae ein gwaith ymchwil yn canolbwyntio ar gyfiawnder gweinyddol a datrys anghydfodau tai yng Nghymru. Cyfiawnder gweinyddol yw cyfiawnder perthnasoedd rhwng unigolion a chyrrff sy'n cyflawni swyddogaethau cyhoeddus. Mae'n ymwneud â'r ffordd mae'r 'llywodraeth a chyrrff cyhoeddus yn trin pobl, cywirdeb eu penderfyniadau, tegwch eu gweithdrefnau a'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl gwestiynu a herio penderfyniadau a wneir amdanynt'.<sup>1</sup> Mae cyfiawnder gweinyddol yn cwmpasu'r system gyfan o wneud penderfyniadau gweinyddol am bobl, gweithdrefnau gwneud penderfyniadau, cyfreithiau perthnasol a systemau ar gyfer osgoi a datrys anghydfodau.
2. Cydnabu'r Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru ('Y Comisiwn Cyfiawnder') bod: 'Cyfiawnder gweinyddol yw'r rhan o'r system gyfiawnder sy'n fwyaf tebygol o effeithio ar fywydau pobl yng Nghymru'.<sup>2</sup> Nododd hefyd: 'Beth bynnag yw'r gwahaniaethau presennol [rhwng cyfreithiau Cymru a Lloegr], mae'n gymharol ddiogel casglu mai yn y maes cyfreithiau gweinyddol sylwedd y mae'r potensial mwyaf ar gyfer ystod o amrywiaethau yn y tymor byr'.<sup>3</sup>
3. Mae cyfreithiau gweinyddol Cymru eisoes wedi gwyro oddi wrth gyfreithiau Lloegr (e.e. o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014), a byddant yn parhau i wyro pan ddaw Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 i rym. Fodd bynnag, fel y datganodd y Comisiwn Cyfiawnder: er bod 'cyfreithiau tai wedi'u datganoli'n llwyr i Gymru, nid yw Llywodraeth Cymru na'r Cynulliad, hyd yma, wedi ystyried cyfuno'r awdurdodaeth dros anghydfodau tai i un llys neu driwlynys'.<sup>4</sup> 1. Nid yw'r Llywodraeth na'r Cynulliad wedi ystyried dull rhesymegol posibl o ymdrin â chyfreithiau tai a datrys anghydfodau yng Nghymru. Nid yn unig ar lefel tribiwnlysoedd a llysoedd, ond hefyd y swyddogaethau sy'n cael eu cyflawni gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, cyrrff rheoleiddio, darparwyr gwasanaethau cyngor ac eiriolaeth, a rhai o Gomisiynwyr Cymru pan fydd hynny'n berthnasol.
4. Yr ydym o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru adolygu cyfreithiau tai a datrys anghydfodau yn benodol yng nghyd-destun Cymru. Cynhaliwyd astudiaethau eraill yn ôl pob golwg ar lefel Cymru a Lloegr, ond oherwydd amseriad, cwmpas neu amcanion, nid yw'r un ohonynt wedi gallu ystyried sefyllfa bresennol cyfreithiau tai a datrys anghydfod sydd wedi'u datganoli i Gymru, neu'r rhyngweithrediad rhwng cyfreithiau ac unioni camweddau datganoledig a heb eu datganoli. Mae hyn yn golygu nad yw rhai cyfreithiau yn berthnasol i Gymru, neu mae eu ceisiadau yn achosi problemau.
5. Mae'r argymhellion a wnawn yn yr Adroddiad 'Tai' hwn wedi'u halinio â'r rhai a wnawn mewn dau Adroddiad pellach ar gyfreithiau gweinyddol a chyfiawnder yng Nghymru. Mae Adroddiad cyffredinol, *Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Chyfiawnder yng Nghymru*, sy'n canolbwyntio ar gyfreithiau gweinyddiaeth gyhoeddus yng Nghymru ar draws darpariaeth y gwasanaethau cyhoeddus, ac ar bolisiau Cymru ar weinyddiaeth, llesiant, hawliau dynol a chydaddoldeb. Mae'r Adroddiad hwnnw hefyd yn archwilio sefydliadau allweddol yn y system cyfiawnder gweinyddol yng Nghymru, sut mae'r system wedi'u dylunio a'i goruchwyllo ac mae'n cynnig diwygiadau. Mae

---

<sup>1</sup> Sefydliad Cyfiawnder Gweinyddol y DU: <https://ukaji.org/what-is-administrative-justice/>

<sup>2</sup> Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, *Cyfiawnder yng Nghymru dros Pobl Cymru* (Hydref 2019) para 6.1.

<sup>3</sup> Comisiwn Cyfiawnder, para 6.15.

<sup>4</sup> Comisiwn Cyfiawnder, para 5.35.

trydydd Adroddiad yn archwilio cyfiawnder gweinyddol yng nghyd-destun addysg gynradd ac uwchradd a gynhelir yng Nghymru. Mae'r Adroddiad 'Addysg' a'r Adroddiad 'Tai' hwn yn astudiaethau achos ar sut mae'r elfennau cyfiawnder gweinyddol (cyfreithiau, cyngor, gwybodaeth, osgoi anghydfodau, datrys anghydfodau a dysgu i wella perfformiad) yn gweithredu mewn meysydd penodol o weinyddiaeth gyhoeddus yng Nghymru a'u heffaith ar fywydau pob dydd pobl.

### **Cyfreithiau a Pholisïau Tai Cymdeithasol a Digartrefedd yng Nghymru**

6. Mae dull datganoledig Cymru yn arddangos dealltwriaeth y Llywodraeth bod tai yn elfen graidd o fyw bywyd o urddas, gan gydnabod swyddogaeth gadarn y wladwriaeth i ddarparu cymorth i unigolion na allant gael mynediad at dai drwy'r farchnad. Mae'r polisïau, cyfreithiau a'r arfer ar dai cymdeithasol a digartrefedd yng Nghymru yn pwysleisio cyfiawnder ar y cyd yn hytrach na chyfiawnder unigol, ac er bod goblygiadau cadarnhaol yn gysylltiedig â hyn, rydym yn dadlau y gallai gyfyngu ar y sylw a roddir i allu unigolion sy'n ceisio unioni camwedd i sicrhau bod eu hawliadau cyfreithiol sylweddol yn cael eu parchu.
7. Yn yr Adroddiad hwn ystyr tai cymdeithasol yw tai sy'n cael eu darparu pan na all unigolion gyflawni eu hanghenion drwy'r farchnad. Gallai amrywiaeth o ddarparwyr gyflenwi hyn, gan gynnwys Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCC), awdurdodau lleol a sefydliadau'r trydydd sector. Mae gan y Sector Rhentu Preifat rôl gynyddol yn cyflawni dyletswyddau'r wladwriaeth, ond nid ydym yn trafod hyn yn yr Adroddiad presennol.
8. Mae ein hymchwil yn mapio'r prif broblemau a wynebir gan unigolion a'u rhyngweithiadau gyda'r hyn y byddent yn eu hystyried yn endidau'r 'wladwriaeth' oherwydd yr endidau hyn sy'n gwneud penderfyniadau ar eu mynediad at adnoddau a'u defnydd ohonynt, waeth beth yw dosbarthiad swyddogol (ac yn ddadleuol, weithiau) cyfreithiol endidau o'r fath. Nodwn driniaeth gyfreithiol wahanol awdurdodau lleol a LCC mewn rhai cyd-destunau, ac rydym yn damcaniaethu ar y posibilrwydd o alinio agweddau ar y fframweithiau cyfreithiol sy'n berthnasol i bob un, yn arbennig yng nghyd-destun Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 ('Rhentu Cartrefi Cymru') (sy'n cyflwyno newidiadau er mwyn i wahanol fathau o sefydliadau gael eu trin yn yr un modd).
9. Er bod polisïau a chyfreithiau tai cymdeithasol wedi'u datganoli, mae cyfiawnder gweinyddol yn y sector yn cael eu heffeithio gan faterion wedi'u cadw yn ôl, gan gynnwys nawdd cymdeithasol. Weithiau ni all Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad liniaru effeithiau diwygiadau lles a gyflwynir gan Lywodraeth y DU, gan gynnwys y Cymhorthdal Ystafell Sbâr a'r Credyd Cynhwysol. Mae'n debygol bod y diwygiadau hyn wedi achosi i fwy o bobl yng Nghymru wynebu achosion cymryd meddiant o dai cymdeithasol a mathau eraill o bwysau cynyddol ar y system cyfiawnder gweinyddol.

### **Cyfundrefnau Rheoleiddio a Chyfraith Weinyddol Gyffredinol**

10. I ddechrau awn i'r afael â'r gyfundrefn cyfreithiau a rheoleiddio sy'n rheoli'r system o wneud penderfyniadau gweinyddol ym maes tai cymdeithasol, gan ddadlau y dylai hyn fod mor glir â phosibl er mwyn annog gweinyddiaeth dda a phenderfyniadau 'cywir y tro cyntaf'.
11. Mae gan awdurdodau lleol ddyletswyddau statudol a phwerau disgrisiwn cyfreithiau gweinyddol i ddarparu llety tai ac maent yn ddarostyngedig i ddyletswyddau cyffredinol cyfraith weinyddol nad yw cymdeithasau tai yn ddarostyngedig iddynt (gan gynnwys materion llesiant, hawliau a rhyddid gwybodaeth). Er bod rhai o gyfranogwyr ein gwaith ymchwil yn pryderu

bod y cefndir deddfwriaethol hwn yn arwain at ddiffyg hyblygrwydd, ac y gallai lesteirio datblygiad dulliau mwy arloesol, megis 'ystyried systemau' mewn awdurdodau lleol, rydym wedi sylwi bod rhai LCC eisoes yn cydymffurfio'n wirfoddol â'r egwyddorion changach sy'n effeithio ar brosesau gwneud penderfyniadau a chyflenwi gwasanaethau (gan gynnwys egwyddorion cynaliadwyedd a llesiant).

12. Ar gyfer LCC, mae dull cyd-reoleiddio unigryw Gymreig sy'n golygu mai'r bwrdd LCC sy'n gyfrifol am sicrhau cydweithrediad â gofynion rheoliadol, mewn cydweithrediad â'u tenantiaid. Mae hyn yn cynnwys gofyniad i ganolbwyntio ar gynnwys tenantiaid ym mhenderfyniadau'r LCC ac yn fwy diweddar ymgais i gynnwys tenantiaid ar lefel fwy strategol. Er bod y ffocws rheoleiddiol ar ymgysylltu'n rhagweithiol gyda thenantiaid, mae anghysondebau o hyd ynghylch sut, ac os, y gall pob unigolyn mewn tai cymdeithasol gyfranogi yn y penderfyniadau y mae eu landlordiaid yn eu gwneud.
13. Mae Bwrdd Rheoleiddiol Cymru wedi dweud nad oes gan y system rheoleiddio tai cymdeithasol yng Nghymru adnoddau digonol, a allai gyfaddawdu swyddogaethau'r rheoleidiwr. Mae anghysondeb ac anghydraddoldeb cydnabyddedig yn natur y rheoliadau tai rhwng y sector awdurdodau lleol a'r sector cymdeithasau tai. Ystyrir fwyfwy fod hyn yn anfanteisiol i gyfranogiad a mynediad tenantiaid awdurdodau lleol.
14. Mae'r fframwaith rheoleiddiol ar gyfer tai cymdeithasol yng Nghymru yn darparu mwy o ddiogelwch i denantiaid na'r system gyfatebol yn Lloegr, ond nid yw hyn yn ymestyn i'r cydestun awdurdodau lleol. Mae Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yn gwneud rhai darpariaethau sy'n ceisio atgyfnerthu cyfranogiad mewn democratiaeth leol a gwella fframweithiau atebolrwydd, ond nid oes unrhyw safonau perfformiad cenedlaethol sefydledig ar hyn o bryd a allai lywio'r gwaith o gynllunio'r ddarpariaeth gwasanaethau lleol a galluogi i ddyfarniadau rheoliadol gael eu llunio.
15. O ystyried bod meysydd thematig cyffredinol gwneud penderfyniadau'r un peth (rheoli tenantiaethau, dyrannu tai, atal digartrefedd), ni ddylid ystyried datblygiad hanesyddol fel dadl ddigonol ar gyfer cynnal y gwahaniaethau rhwng cyfreithiau gweinyddol perthnasol a dulliau rheoleiddio. Mae cynigion Llywodraeth Cymru i gyfuno a chodeiddio cyfreithiau tai Cymru yn y tymor hwy yn cynnig cyfle i edrych o'r newydd ar reoliadau a chymhwyso egwyddorion a safonau cyffredinol cyfreithiau gweinyddol.

Argymhelliad 1: Bod Llywodraeth Cymru yn rhoi mwy o ystyriaeth/cynnal mwy o ymchwil/ymgyngoriad i ddatblygu a gweithredu dull rheoleiddio 'parth' gan ddilyn egwyddor sylfaenol y dylai'r broses o reoleiddio gwasanaethau tai awdurdodau lleol a LCC gael ei chyflawni gan un asiant yn unol â dull cyffredin.<sup>5</sup>

Argymhelliad 2: Bod Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad yn rhoi mwy o ystyriaeth i'r posibilrwydd o harneisio cyfreithiau gweinyddol sy'n seiliedig ar hawliau a chynaliadwyedd i fod yn berthnasol i awdurdodau lleol a LCC.

### **Penderfynwyr Gweinyddol a Gwaith Partneriaeth**

16. Tra bod polisiau a rheoleiddio yn agweddau pwysig o'r system cyfiawnder gweinyddol, elfennau pwysicach fyth yw'r llu o benderfyniadau a wneir bob dydd sy'n effeithio ar allu pobl

---

<sup>5</sup> Nodwn wrth i ni gwblhau'r argymhellion y daethom i wybod bod Bwrdd Rheoleiddiol Cymru wedi comisiynu ymchwil i'r cwestiwn hwn, ond fe ystyriwn fod yr argymhellion sydd wedi eu seilio ar ein tystiolaeth ymchwil ni yn parhau'n bwysig.

i ddefnyddio a chael mynediad at dai cymdeithasol. Gwelsom fod y staff sy'n gwneud penderfyniadau mewn awdurdodau lleol a LCC yn wynebu pwysau sylweddol. Mae gan staff tai cymdeithasol faich achosion uchel yn aml, mae'n bosibl eu bod yn weithwyr dros dro ac yn poeni am ddiogelwch eu swydd eu hunain. Mae atomeiddio'r broses o wneud penderfyniadau (yn elfennau hanfodol sy'n cael eu cyflawni gan bobl a/neu algorithmau gwahanol) hefyd yn ei gwneud yn anodd i staff ddefnyddio dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Clywsom enghreifftiau o broblem barhaol mewn cyfreithiau gweinyddol, sef sut y gall pobl ddeall y gwahaniaethau rhwng cyfraith a pholisi, a rhwng penderfyniadau sy'n cael eu llywodraethu gan reolau a phenderfyniadau da wneir gyda disgresiwn. Yng Nghymru yn benodol, gall cynnydd yn nifer y cyfreithiau meddal, fel y'i gelwir (gan gynnwys canllawiau a fframweithiau amrywiol newydd ar wneud penderfyniadau yr anogir penderfynwyr weithiau yn hytrach na'u gorfodi i'w defnyddio) arwain at ddryswch ynghylch y cyfleoedd priodol i lunio barn ddisgresiwn. Mae'n rhaid i'r system gweinyddiaeth gyhoeddus yn ei chyfanrwydd dderbyn adnoddau digonol i alluogi pobl i wneud penderfyniadau da, i sicrhau bod gan benderfynwyr unigol y gallu a'r hyblygrwydd i ystyried amrediad o ffactorau wrth gyflawni eu rolau ac i sicrhau bod prosesau yn gweithredu'n dosturiol.

17. Defnyddiwyd technegau cyfiawnder adferol gan LCC yng Nghymru, gyda phenderfynwyr cychwynnol yn ogystal ag arweinwyr a rheolwyr yn derbyn hyfforddiant. Mae'r dulliau hyn yn cynnwys cylchoedd a chynadleddau adferol sy'n galluogi i nifer o bartïon gwahanol ddod at ei gilydd i drafod sut mae mater penodol wedi effeithio ar bob un ohonynt a phenderfynu, pan fydd hynny'n bosibl, sut i atgyweirio'r niwed a achoswyd a galluogi pobl i gyflawni eu hanghenion eu hunain. Mae'r mathau hyn o ddulliau yn ymgais wirioneddol i leihau gwrthwynebiad yn y cyd-destun tai, a cheisio atal anghydfodau rhag digwydd (neu eu hailadrodd), i ddatrys yr anghydfodau hynny sydd yn digwydd mor fuan â phosibl ac i alluogi'r rhai sy'n byw mewn tai cymdeithasol i fyw heb y bygythiadau parhaus o gael eu troi allan ac effeithiau ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae defnyddio'r technegau hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar osgoi anghydfodau, ac maent yn lleihau'r costau sy'n cael eu hachosi gan anghydfodau ar draws amrediad o wasanaethau, gan gynnwys cysylltu gwasanaethau awdurdodau lleol megis iechyd a phlisma.
18. Anogwyd gwaith partneriaeth hefyd yn y sector tai cymdeithasol. Gwelsom enghreifftiau effeithiol o waith partneriaeth ar draws awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru, ond roedd rhai awdurdodau lleol a chymdeithasau tai yn Ne Cymru yn llai parod i ymgysylltu â'n prosiect, a chlywsom y gallai fod llawer mwy o wrthdaro rhwng cyrff yn Ne Cymru. Nododd cyfranogwyr yr ymchwil bod gwaith partneriaeth wirioneddol yn galw am ddull mwy cydlynol, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a/neu ddull sy'n canolbwyntio ar y teulu wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, ac y dylai'r llwybrau at gyfiawnder gweinyddol geisio adlewyrchu hynny hefyd. I nifer o'n cyfranogwyr, dadleuwyd bod gwaith partneriaeth gwirioneddol yn galw am grynhai cyllidebau (er gwaethaf yr anawsterau i gyflawni hynny). Fodd bynnag, gall gwaith partneriaeth ei gwneud yn anodd i unigolion (a chynghorwyr) wybod pwy sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau yn eu hachos hwy, pa gyfreithiau sy'n berthnasol, a beth yw'r llwybrau atebolrwydd. Mae hyn yn dwysáu problemau sydd eisoes yn cael eu creu wrth i awdurdodau lleol a LCC gymhwyso gwahanol gyfundrefnau cyfreithiol, ac oherwydd cyfreithiau sydd wedi'u rhannu ar draws ffynonellau datganoledig a heb eu datganoli.

### **Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth**

19. Mae darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i'r rhai sydd wedi'u heffeithio gan benderfyniadau gweinyddol yn y sector tai hefyd yn agwedd hollbwysig o gyfiawnder gweinyddol. Yng Nghymru, mae'n debyg bod darparu cyngor cynnar ar ddirgaredd wedi

cynyddu i raddau yn sgil Deddf Tai (Cymru) 2014 ('Deddf 2014')<sup>6</sup>, ac mae awdurdodau lleol yn ceisio gweithio'n agosach gyda chynghorwyr, er enghraifft Shelter Cymru a Llamau, sydd weithiau'n gweithio o leoliadau awdurdodau lleol. Gallai hyn gynorthwyo cynghorwyr i gyflawni swyddogaeth ddefnyddiol o 'frysbenneu' anghydfodau, a gwneud i'r system deimlo'n llai fel 'nhw a ni' i bobl sydd angen cymorth. Er hynny, nododd rhai o'n cyfranogwyr y gall hyn arwain at bryderon ynglŷn ag a yw cynghorwyr sydd wedi eu lleoli mewn awdurdodau lleol yn cael eu gweld i fod yn annibynnol a diduedd ac bod angen rheoli'r agweddau cyflwyniadol hyn yn ofalus. Gellir gwella'r sefyllfa hon drwy ystyried a ellir diwygio deddfwriaeth i gynnwys y dylai awdurdodau lleol 'ystyried' yr egwyddor bod yn 'rhaid darparu dull diduedd' o ddarparu cyngor.

20. Dadleuodd ein cyfranogwyr hefyd y gellir gwneud mwy i ddarparu gwybodaeth glir a hawdd ei dilyn i bobl am eu hawliau tai, gan gynnwys eu hawliau i gyngor cyfreithiol annibynnol, mor gynnar â phosibl. Mae pryderon amlwg ynghylch y diffyg mynediad at gyngor sy'n cael ei ariannu gan gymorth cyfreithiol. Mae Shelter Cymru yn profi anhawster gyda chapasiti digonol i gyflawni'r galw am eu gwasanaethau, ac mae pobl yn cael anhawster i gael apwyntiad o fewn amser rhesymol.
21. Hyd yn oed pan fydd hawliau cyfreithiol i geisio adolygiad neu apêl yn erbyn penderfyniadau gweinyddol penodol wedi'u nodi'n glir mewn llythyr penderfyniad, mae diffyg mynediad at gyngor yn parhau i fod yn rhwystr mawr at gael mynediad a llywio'r llwybrau at unioni camweddau. Er mwyn i wasanaethau cyngor fod yn effeithiol, mae'n rhaid i bobl allu cael mynediad atynt, a hefyd mynediad at wasanaethau cymorth changach (iechyd meddwl, cyngor ar ddyledion, iechyd corfforol ac yn y blaen) hyd yn oed pan nad ydynt o bosibl yn dueddol o wneud hynny.
22. Mae'r dirwedd ar gyfer cal mynediad at gyngor cymorth cyfreithiol yn gymhleth, oherwydd mae arian cyhoeddus ar gael i herio rhai agweddau ar benderfyniadau (e.e. apeladau llys sirol a rhai adolygiadau barnwrol yn y Llys Gweinyddol) ond nid i herio agweddau eraill (e.e. cyngor ar herio penderfyniadau dyrannu tai cymdeithasol oni bai bod hyn yn cynnwys adolygiad barnwrol).
23. Roedd cyfranogwyr ein hymchwil o'r farn, hyd yn oed pan allai'r llwybrau at herio penderfyniadau gweinyddol fod yn gymharol glir i gyfreithwyr neu ddarparwyr cyngor eraill a gweithwyr proffesiynol y sector tai, nid ydynt yn glir i'r cyhoedd yn gyffredinol. Awgrymwyd hefyd bod eglurder y wybodaeth a'r cyngor a roddir gan rai awdurdodau lleol a LCC yn amrywio, ac ar achlysuron mae wedi camarwain tenantiaid yn weithredol. Gwelsom enghreifftiau o roi cyngor sy'n anghywir yn gyfreithiol (gan gynnwys oherwydd y defnyddiwyd cyfreithiau Lloegr nad oeddent yn berthnasol). Yn ein harolwg o weithwyr proffesiynol y sector tai, roedd 83% o'r farn bod 'diffyg ymwybyddiaeth o'r llwybrau i herio' yn un rheswm pam nad yw pobl yn herio, neu'n cael anhawster i herio penderfyniadau tai cymdeithasol a digartrefedd. Roedd 75% arall o'r farn bod 'natur gymhleth cyfreithiau perthnasol' yn rheswm amlwg pam nad yw pobl yn herio penderfyniadau gweinyddol yn y sector.
24. Nododd cyfranogwyr ein hymchwil bod natur gymhleth y materion sy'n wynebu pobl a'u hamgylchiadau personol yn ffactor allweddol. Gall pobl sy'n ddigartref/sy'n wynebu

---

<sup>6</sup> Ceisia Deddf 2014 wella'r cyflenwad o dai yng Nghymru a'u hansawdd a'u safon a rhydd ddyletswydd ar awdurdodau lleol i weithio gyda phobl sy'n wynebu'r risg o gollu eu cartrefi i ganfod ateb i'w problemau. Mae hyn yn cyflwyno dyletswydd newydd i gyrff cyhoeddus geisio atal digartrefedd yn amgylchiadau unrhyw un sydd angen cymorth.

digartrefedd neu sydd â phryderon am dai cymdeithasol fod yn profi amrediad o faterion cymhleth gan gynnwys: iechyd meddwl gwael, anabledau dysgu, anllythrennedd a phroblemau ariannol. Mae'r fframwaith yn tybio bod unigolyn yn gwneud dewisiadau rhesymegol, ond mewn gwirionedd mae pobl yn cysgu ar y strydoedd ac yn profi profiadau trawmatig iawn, ac mae angen rhoi mwy o ystyriaeth ymarferol i le a phryd y gwneir penderfyniadau, y penderfyniadau gweinyddol a phenderfyniad yr unigolyn i herio ai peidio.

25. Credwn y dylid rhoi mwy o sylw i rôl tua 1,250 o gynghorwyr lleol yng Nghymru, fel y pwynt cyswllt cyntaf i bobl â phroblemau tai cymdeithasol. Mae cynghorwyr yn darparu ffynhonnell fawr o gyngor a chynrychiolaeth (gan gynnwys trosglwyddo materion yn uniongyrchol i swyddogion tai awdurdodau lleol). Fodd bynnag, nid yw'r cyngor/cymorth hwn yn cael ei reoleiddio ac ni roddir hyfforddiant penodol i gynghorwyr ar unioni camweddau yn y system cyfiawnder gweinyddol.
26. Mae angen cyflwyno gwybodaeth gan ddefnyddio'r eirfa gywir er mwyn galluogi pobl i ddeall eu hawliau, i gael mynediad at brosesau unioni camweddau ac i ddeall y camau mewn prosesau o'r fath. Yn ein hymchwil clywsom am ddull a ddefnyddiwyd yn y gorffennol (drwy CAB Cymru yn bennaf) wrth ddarparu cyngor hawliau lles (sy'n cael eu deall ar y cyfan) i rymuso pobl drwy wybodaeth i ddeall eu hawliau eu hunain, ond y gallai toriadau i gyllid fod wedi'i gwneud yn anodd cynnal hyn.

Argymhelliad 3: Mae angen sicrhau bod hyfforddiant mwy ymroddedig a phenodol ar gael ar faterion cyfiawnder gweinyddol a llwybrau at unioni camweddau yn y system i staff awdurdodau lleol a LCC ac i gynghorwyr lleol. Gellir darparu'r hyfforddiant hwn o dan nawdd cyrff cynrychioliadol megis Cymdeithas Llywodraeth Cymru a chyrrff sy'n cynrychioli'r sector tai. Gallai ymgynghorwyr annibynnol ddarparu'r hyfforddiant ei hun a/neu drwy weithio gyda Shelter Cymru. Dylai'r hyfforddiant hwn ddefnyddio enghreifftiau ymarferol clir hefyd i helpu staff sy'n gwneud penderfyniadau i ddeall y gwahaniaethau rhwng polisi a chyfraith, a pha mor bwysig yw rôl y penderfynydd cychwynnol fel rhan o system cyfiawnder gweinyddol. Gallai datblygu pecynnau hyfforddiant ar gyfer cynghorwyr lleol gan ymgynghorwyr annibynnol sy'n gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a gallai gwmpasu nifer o feysydd ym maes cyfiawnder gweinyddol (tai, addysg, iechyd ac yn y blaen). Dylai bod mwy o hyfforddiant penodol ar gael ar ddarpariaethau cyfreithiau tai Cymru, ar bob lefel mewn awdurdodau lleol a LCC. Dylid darparu hyfforddiant ar dechnegau adferol i bob awdurdod lleol a LCC.

Argymhelliad 4: Gallai sefydliadau cynrychioliadol/academyddion gynnal mwy o ymchwil/gwaith dadansoddi ar amodau gwaith staff awdurdodau lleol a LCC sy'n gwneud penderfyniadau cychwynnol, ac yn benodol archwilio sut mae'r amodau gwaith yn effeithio ar eu gallu i wneud penderfyniadau cychwynnol da sy'n 'canolbwyntio ar yr unigolyn' a sut y gellir cefnogi staff yn well.

Argymhelliad 5: Dylid gwneud mwy i annog adfywiad o'r dull 'grymuso pobl drwy wybodaeth' i ddealltwriaeth pobl o'u hawliau eu hunain, gan gynnwys eu hawl i unioni camweddau yn y system cyfiawnder gweinyddol. Gellir hyrwyddo hyn drwy Rwydwaith Cyngor Cenedlaethol a Rhwydwaith Cyngor Rhanbarthol Cymru.

Argymhelliad 6: Gallai Llywodraeth Cymru, y Cynulliad a'r sector tai ystyried a ddylid diweddarau deddfwriaeth i sicrhau y dylai awdurdodau lleol 'ystyried' yr egwyddor bod yn 'rhaid darparu' cyngor ar ddigartrefedd 'mewn dull diduedd'.



## Osgoi Anghydfodau a Datrysiaid Anffurfiol

27. Ymhlith y mathau o anghydfodau y gallai pobl eu cael gyda chyrrff cyhoeddus yn y sector tai cymdeithasol a digartrefedd mae: anghydfodau ynghylch dyraniad tai cymdeithasol a chymhwysedd ar gyfer tai cymdeithasol; cydymffurfiaeth awdurdodau lleol gyda dyletswyddau i osgoi digartrefedd ac i ddarparu cymorth i bobl ddigartref, darparu llety dros dro a llety â chymorth, anghydfodau tenantiaethau tai cymdeithasol, gan gynnwys penderfyniad landlord i geisio adennill meddiant o eiddo a materion sy'n gysylltiedig ag atgyweiriadau a ffitrwydd i fod yn gartref. Gall anghydfodau godi hefyd am ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig ag eiddo tai cymdeithasol. Mae anghydfodau tai yn aml yn amlweddog ac yn cynnwys materion dyledion ac iechyd meddyliol a chorfforol sydd y tu hwnt i reolaeth partïon anghydfod ond a allai fod yn brif ysgogwyr y problemau.
28. Mae awdurdodau lleol a chymdeithasau tai yng Nghymru yn ceisio annog datrysiaid cynnar ac anffurfiol i anghydfodau, a dyma'r math mwyaf cyffredin o weithgarwch datrys anghydfodau yn y sector. Mae gan awdurdodau lleol (a LCC) ddulliau amrywiol ar waith i gynorthwyo datrysiaid cynnar ac i atal problemau rhag codi. Fodd bynnag, gwelsom nad yw awdurdodau lleol yn cadw unrhyw wybodaeth am nifer y bobl sy'n defnyddio gweithdrefnau datrys anghydfodau anffurfiol ar y cyfan na chanlyniadau'r gweithdrefnau hyn.
29. Pan fydd ceisiadau ffurfiol yn cael eu cyflwyno, a phan fydd penderfyniadau ffurfiol yn cael eu darparu, mae'n gliriach i'r unigolyn beth yw'r llwybrau herio. Fodd bynnag, soniodd cyfranogwyr ein hymchwil am bryderon ynglŷn â'r risg bod awch i gau mater yn arwain at sgysiau lle cynghorir unigolion i 'gymryd yr hyn a gynigir iddynt'. Mae sgysiau o'r fath yn cael eu hystyried weithiau fel dull anffurfiol/amgen o ddatrys anghydfod, heb i'r unigolyn sylweddoli hynny.

**Argymhelliad 7:** Dylai awdurdodau lleol ddarparu mwy o eglurder ynghylch y dulliau datrys anghydfod anffurfiol neu amgen a gynigir ganddynt. Dylid esbonio'r gwahaniaeth rhwng datrysiaid ffurfiol ac anffurfiol yn glir i unigolion. Dylai awdurdodau lleol geisio casglu data am y defnydd o weithdrefnau datrys anffurfiol/amgen a'u canlyniadau.

## Prosesau Cwynion Mewnol Cyrff Cyhoeddus ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

30. Os na fydd datrysiaid anffurfiol yn llwyddo i ddatrys mater nac yn osgoi anghydfod mwy ffurfiol, gall unigolyn geisio defnyddio prosesau cwynion mewnol y LCC neu'r awdurdod lleol. Gwelsom fod rhai awdurdodau lleol yn darparu gwybodaeth sylfaenol (yn arbennig ar-lein) sy'n amlygu enghreifftiau o benderfyniadau gweinyddol y dylid eu cyfeirio at brosesau gwahanol: boed hynny'n broses cwynion cyffredinol yr awdurdod; materion y mae angen i brosesau cwynion penodol eraill fynd i'r afael â hwy (gan gynnwys e.e. cwynion am y gwasanaethau cymdeithasol a chwynion am ddarparu gwybodaeth); a materion y dylid eu cyfeirio at broses cwynion neu apêl gyfreithiol allanol. Fodd bynnag, nid yw pob awdurdod lleol yn darparu'r wybodaeth hon mewn ffordd glir a hygyrch.

**Argymhelliad 8:** Dylai pob awdurdod lleol yng Nghymru ddarparu gwybodaeth glir am lwybrau at unioni camweddau, gydag enghreifftiau eglurhaol, er mwyn i bobl allu penderfynu ar y llwybr priodol ar gyfer datrys y mathau mwyaf cyffredin o gwynion, ac anghydfodau ynghylch eu hawliau cyfreithiol.

31. Yn gyffredinol, mae awdurdodau lleol yn cyhoeddi gwybodaeth am nifer y cwynion a dderbynnir am eu penderfyniadau gweinyddol, ac ynghylch pynciau'r cwynion a'u canlyniadau, ond mae tuedd i gyflwyno'r wybodaeth hon yn wahanol ar draws pob awdurdod (ac ar draws LCC). Nid oes unrhyw gronfa ddata canolog y gellir chwilio drwyddi ar gyfer y naill fath neu'r llall, felly mae'n anodd cael darlun clir am y defnydd o brosesau cwyno a chanlyniadau ar draws y sector tai cymdeithasol.
32. Os bydd unigolyn wedi dilyn gweithdrefn gwyno'r awdurdod lleol neu LCC a'u bod yn parhau i fod yn anfodlon, mae'n bosibl y gallant wneud cwyn i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, sydd â'r awdurdodaeth i ymchwilio i gwynion am gamweinyddu a methiannau gwasanaeth honedig mewn awdurdodau lleol a LCC. Nid yw camweinyddu yn derm diffiniedig, ac yn achos tai cymdeithasol a digartrefedd gall gynnwys; dyraniad anghywir i fand penodol o dai oherwydd methiannau gweinyddol, oedi wrth ddyrannu, peidio ag ystyried gwybodaeth feddygol wrth wneud penderfyniad, methiant i gyflawni dyletswyddau asesu digartrefedd, a chyfeirio anghywir (yn benodol cyfeirio unigolyn i wneud cwyn yn uniongyrchol i Ombwdsmon Gwasanaethau Cymdeithasol yn hytrach na defnyddio gweithdrefn gwyno'r awdurdod lleol i ddechrau). Un maes allweddol o gamweinyddu a nodwyd gan yr Ombwdsmon yw pan na chydymffurfir â chyfreithiau a pholisïau perthnasol, gan gynnwys camddealltwriaeth ynghylch pa ffynonellau cyfreithiol sy'n berthnasol i agweddau penodol o wneud penderfyniadau.
33. Gwelsom y gall fod yn anodd i bobl wahaniaethu rhwng ceisiadau am wasanaethau a chwynion, a bod prosesau cwynion LCC yn dueddol o fod yn hirach, yn fwy cymhleth ac anodd i unigolion eu llywio o gymharu â phrosesau awdurdodau lleol. Gall y rhain arwain at gwynion cynamserol i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, a chwynion sydd wedi'u cyfeirio'n anghywir at Lywodraeth Cymru neu Weinidogion penodol.

**Argymhelliad 9: Bod Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, yn benodol ei Awdurdod Safonau Cwynion newydd, yn adolygu gweithdrefnau cwynion LCC, yn benodol eu hyd a'u cymhlethdod. Bod safonau cwynion ar gyfer darparwyr tai cymdeithasol (awdurdodau lleol a LCC) a gyflwynir gan yr Ombwdsmon yn galw am esboniad clir o'r gwahaniaeth rhwng ceisiadau gwasanaeth a chwynion.**

### **Unioni Camweddau mewn Meysydd Penodol o wneud Penderfyniadau Tai**

34. Yn y tair adran nesaf byddwn yn edrych ar y prosesau unioni camweddau sydd ar gael mewn cysylltiad â meysydd penodol o wneud penderfyniadau am dai cymdeithasol a digartrefedd, yna byddwn yn llunio casgliadau mwy cyffredinol am yr amgylchedd unioni camweddau.

### **Digartrefedd**

35. Sefydlodd Deddf 2014 ddyletswyddau newydd ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru yng nghyd-destun digartrefedd. Ceisia hyn symud y pwyslais yn ystod camau cynharach gwneud penderfyniadau o ddull sy'n achosi gwrthdaro a gwrthwynebiad, i ddull sy'n seiliedig ar berthynas newydd gyda'r cleient yn 'ganolbwynt'. Fodd bynnag, nid yw'r Ddeddf yn gwneud unrhyw newidiadau i'r broses datrys anghydfod. Y cam cyntaf yn y broses honno yw gofyn i'r awdurdod lleol gynnal adolygiad gweinyddol o'i benderfyniad ei hun. O'r wybodaeth sydd ar gael, mae'n ymddangos yn annhebygol bod Deddf 2014 yn ddo'i hyn wedi arwain at unrhyw ostyngiad yn nifer yr adolygiadau gweinyddol mewnol a geisiwyd ac mae ymchwil blaenorol yn dangos, er bod proffil yr her yn amrywiol, mae'r nifer o adolygiadau ar draws awdurdodau lleol

yng Nghymru a Lloegr wedi bod yn isel, gyda'r mwyafrif yn profi pump neu lai'r flwyddyn. Mae ymchwil yn Lloegr wedi dangos bod adolygiadau gweinyddol o ddigartrefedd wedi datblygu mwy o 'farnwriaeth' gyda chyfraniad cynyddol gan gyfreithwyr, gan arwain at brosesau mwy ffurfiol o bosibl.<sup>7</sup> Yn y gorffennol mae hyn wedi arwain at ganlyniadau gwell i unigolion sy'n gwneud cais am adolygiad, ond yn fwy diweddar mae canlyniadau adolygiadau unigol wedi bod yn fwy amwys, tra bod tystiolaeth bod cyfranogiad cyfreithwyr yn arwain at broses fwy boddhaol, a thebygolrwydd uwch o wersi'n cael eu dysgu a gwelliant ym mhob perfformiad awdurdodau lleol.

36. Mae gan bobl hawl i apelio i'r llys sirol yn dilyn penderfyniad anffafriol i adolygiad, ond anaml y cynhelir apeladau o'r fath yng Nghymru (yn anecdotaidd, tua dwsin y flwyddyn) ac nid yw llawer o awdurdodau yn wynebu unrhyw heriau yn y llys sirol mewn unrhyw flwyddyn benodol. Mae'r Llys Apêl o'r farn, yn dilyn tystiolaeth gan Shelter ynglŷn â'r anawsterau o sicrhau cymorth cyfreithiol, y gall yr amser a gymerir yn ceisio cael mynediad at gymorth cyfreithiol ddarparu 'rheswm da' dros gyfiawnhau estyniad i'r amser i apelio yn erbyn penderfyniad anffafriol i adolygiad gweinyddol. Mae adroddiad gan Weithgor JUSTICE, *Solving Housing Disputes*, wedi argymhell y dylid ymestyn y cyfnod o amser a argymhellir ar gyfer apelio yn erbyn penderfyniad adolygiad mewnol awdurdod lleol ar ddigartrefedd (adran 204 Deddf Tai 1996 yn Lloegr) o 21 diwrnod i o leiaf 28 diwrnod er mwyn rhoi mwy o amser i apelwyr gael mynediad at gymorth cyfreithiol.<sup>8</sup> Rydym yn cynnig y dylai Llywodraeth Cymru/y Cynulliad ystyried diwygio, yn yr un modd, y cyfnod o amser ar gyfer apelio o dan adran 88 Deddf 2014.

**Argymhelliad 10: Dylai Llywodraeth Cymru/y Cynulliad ystyried a ddylid ymestyn y terfyn amser ar gyfer apelio penderfyniad adolygiad mewnol awdurdod lleol ar ddigartrefedd o dan adran 88 Deddf Tai (Cymru) 2014 o 21 diwrnod i 28 diwrnod er mwyn caniatáu mwy o amser i apelwyr gael mynediad at gymorth cyfreithiol.**

37. Bydd ond yn bosibl herio rhai agweddau penodol ar benderfyniadau digartrefedd drwy adolygiad barnwrol yn y Llys Gweinyddol. Mae cyfraddau'r adolygiadau barnwrol ar ddigartrefedd yng Nghymru wedi lleihau ers i Ddeddf 2014 ddod i rym (sy'n awgrymu llai o wrthwynebiadau), ond dylid ystyried hyn yn erbyn effeithiau ehangach toriadau i gymorth cyfreithiol a diwygiadau gweithdrefnol sydd wedi arwain at ostyngiad sylweddol yn nifer yr hawliadau adolygiadau barnwrol a gyhoeddwyd yng Nghymru (ac yn Lloegr) ers tua 2013.<sup>9</sup> 1.

## Dyraniadau tai

38. Y prif lwybr cychwynnol er mwyn herio penderfyniadau dyraniadau tai yw, unwaith eto, drwy adolygiad gweinyddol mewnol. Mae ceisiadau ar gyfer adolygiadau yn amrywio'n fawr ar draws awdurdodau lleol a gall nifer o ffactorau ddylanwadu arnynt, gan gynnwys demograffeg y boblogaeth. Gwelsom fod diwylliant, arferion gweithio a lefelau hyfforddiant awdurdodau lleol hefyd yn debygol o gael effaith ar nifer y ceisiadau a wneir am adolygiadau. Gallai ffactorau allanol fod yn arwyddocaol hefyd, gan gynnwys a yw cyflwyniad y Credyd Cynhwysol yn effeithio ar a yw'r Sector Rhentu Preifat yn barod (ai peidio) i rentu i denantiaid sy'n derbyn

<sup>7</sup> C Hunter, D Cowan, A Dymond a S Halliday, 'Reconsidering mandatory reconsideration' [2017] *Public Law* 215.

<sup>8</sup> JUSTICE, *Solving Housing Disputes* (Mawrth 2020) paragraff 3.7: <https://justice.org.uk/wp-content/uploads/flipbook/29/book.html>

<sup>9</sup> Public Law Project ac S Nason, tystiolaeth i'r Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-11/submission-to-the-justice-commission-from-public-law-project-sarah-nason.pdf>

y budd-dal newydd (gan gynyddu'r pwysau ar dai cymdeithasol ac felly ar geisiadau am adolygiadau).

39. Mae'n ofynnol i gynlluniau dyrannu tai awdurdodau lleol ddarparu proses adolygiad mewnol ar gyfer rhai mathau o benderfyniadau, ond nid oes gofyniad statudol i ddilyn gweithdrefn benodol. Mae Llywodraeth Cymru'n gosod 15 darpariaeth y 'gallai' awdurdodau lleol eu mabwysiadu er mwyn sicrhau gweithdrefn adolygiad mewnol deg. Mae'r rhain yn cynnwys sicrhau bod ymgeiswyr yn cael gwybod am wasanaethau cyngor perthnasol, sicrhau y gall ymgeiswyr ofyn am wybodaeth bellach, y gallant wneud cais am wrandawriad llafar, bod yr adolygiad yn cael ei gynnal gan uwch swyddog annibynnol priodol, y gellir ystyried newidiadau mewn amgylchiadau. Mae'r Canllaw hefyd yn gwneud darpariaethau ar bwerau a rôl unrhyw berson sy'n cynrychioli'r ymgeisydd mewn achos o adolygiad, a pharchu Safonau'r Iaith Gymraeg. Nid yw'n ymddangos bod y Canllaw yn galw am ddarparu gwybodaeth i'r unigolyn am lwybrau ymlaen i unioni camweddau os byddant yn parhau i fod yn anffodlon â'r penderfyniad yn dilyn adolygiad mewnol.

**Argymhelliad 11:** Gallai Llywodraeth Cymru ystyried ymgynghori ar ddiwygio'r Canllaw er mwyn i awdurdodau lleol 'orfof' neu y 'dylent' fabwysiadu darpariaethau ynglŷn â sicrhau gweithdrefn adolygiad mewnol teg ac y dylid ehangu ar hyn i ddarparu gwybodaeth am lwybrau ymlaen i unioni camweddau os bydd unigolyn yn anffodlon â phenderfyniad yr adolygiad.

40. Nid yw llawer o awdurdodau lleol yn cadw cofnodion o adolygiadau y gwneir cais amdanynt na'u canlyniadau. Anaml iawn y defnyddir y llwybr statudol hwn at unioni camweddau, er gwaethaf rhai enghreifftiau nodedig o gwynion i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru sy'n gysylltiedig â dyrannu tai sy'n cynnwys camddealltwriaeth o gyfreithiau perthnasol. Roedd rhai o gyfranogwyr ein hymchwil o'r farn bod 'rhengoedd wedi cau' yng nghyd-destun adolygiadau mewnol ac mai'r unig ffordd o sicrhau datrysiad gwirioneddol annibynnol i'r mater fyddai gwneud cwyn i'r Ombwdsmon neu geisio adolygiad barnwrol yn y Llys Gweinyddol.

**Argymhelliad 12:** Dylai Llywodraeth Cymru argymhell bod awdurdodau lleol a LCC yn cadw cofnodion o nifer y ceisiadau am adolygiadau gweinyddol mewnol statudol a'u canlyniadau, er mwyn olrhain tueddiadau i ddefnydd, gan gynnwys fel dull o wella gweinyddiaeth ar gyfer y dyfodol.

41. Mae LCC yn gwneud penderfyniadau pwysig hefyd am dai, gan gynnwys penderfyniadau ar ddyrannu tai cymdeithasol, ond nid yw Canllawiau Llywodraeth Cymru ar y gweithdrefnau ar gyfer adolygiadau gweinyddol yn berthnasol i'r cyrff hyn, ac felly nid oes yn rhaid iddynt ddilyn canllawiau penodol yn nhermau cynnig a chynnal yr adolygiadau gweinyddol mewnol. Yn gyffredinol, mae'n ymddangos nad oes unrhyw ddogfen benodol, sydd ar gael i'r cyhoedd, sy'n nodi'r gwahaniaethau rhwng deddfwriaethau sy'n berthnasol i awdurdodau lleol a LCC yng Nghymru ar draws amrediad o faterion.

**Argymhelliad 13:** Bod Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth fwy manwl a haws ei dilyn (drwy safle Cyfraith Cymru) ynghylch y gwahanol gyfundrefnau cyfreithiol sy'n berthnasol i awdurdodau a LCC fel ei gilydd.

**Argymhelliad 14:** Bod Llywodraeth Cymru yn ystyried yr achos dros ei gwneud yn ofynnol i LCC ddarparu hawl i adolygiad mewnol o'u penderfyniadau dyrannu, gyda'r un egwyddorion yn berthnasol i adolygiadau mewnol awdurdodau lleol.

42. Mae 'bylchau' yn bodoli yn y dirwedd adolygiadau mewnol. Ni ddarperir unrhyw adolygiad er mwyn herio penderfyniad bod cynnig tai cymdeithasol yn addas, i herio graddfa neu argymhelliad a wneir gan gynghorydd meddygol yr awdurdod lleol, neu i herio penderfyniad ynglŷn â blaenoriaeth ymgeisydd ar gyfer tai. Mae'r bylchau hyn, sy'n cael eu llenwi gan yr adolygiad barnwrol wrth gefn yn ôl pob tebyg, yn achosi dryswch, ni ellir eu cyfiawnhau'n dda ac maent yn achosi problemau o ran cael mynediad at gyfiawnder. Mae'r bylchau hefyd yn arwain at unigolion yn methu â chyrraedd y 'bar statudol' sy'n golygu na all yr Ombwdsmon ddelio â chwyn fel arfer os bydd unigolyn wedi cael, neu y gallent fod wedi cael, llwybr cyfreithiol at unioni camweddau drwy lys neu dribiwnlys. Ymwybyddiaeth gyfyngedig sy'n bodoli o adolygiad barnwrol fel llwybr at unioni camweddau ac mae'n anodd iawn cael mynediad at y broses mewn dull amserol, heb gyngor cyfreithiol.
43. Mae'n ymddangos bod y defnydd o adolygiadau barnwrol yn agos at fod yn ddibwys fel dull o herio penderfyniadau ar ddyrannu tai yng Nghymru, neu agweddau eraill ar benderfyniadau tai a wneir y tu hwnt i'r cyd-destun digartrefedd. Dim ond tri adolygiad barnwrol 'tai' a gynhaliwyd yng Nghaerdydd (o fis Ebrill 2009 i fis Mai 2018) a oedd yn cynnwys diffynydion o gyrff cyhoeddus yng Nghymru, ni chafodd unrhyw rai o'r hawlwr eu cynrychioli'n gyfreithiol ac ni aeth yr un o'r hawliadau ymlaen i wrandawriad terfynol o sylwedd. Derbyniwyd llai nac 20 o geisiadau am adolygiad barnwrol digartrefedd yn ystod yr un cyfnod, a chyflwynwyd y rhan fwyaf ohonynt cyn i Ddeddf 2014 ddod i rym ac roedd bron pob un ohonynt yn ymwneud â Shelter Cymru. Yn ein ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth, nid oedd yr un o'r 12 awdurdod lleol a ymatebodd wedi bod yn destun adolygiad barnwrol ar unrhyw agwedd ar dai neu ddigartrefedd yn ystod eu dau gyfnod adrodd diwethaf, ac nid oedd gan y rhai a oedd wedi cadw cofnodion o gysylltiadau wedi derbyn unrhyw Lythrau Cyn Hawliad (llythyr a anfonir gan ddarpar hawliwr sy'n ceisio nodi'r materion mewn anghydfod a phenderfynu a ellir osgoi achos llys).

### **Unioni Camweddau Statudol yn y Berthynas rhwng Landlord a Tenant a Deddf Rhentu Tai (Cymru) 2016**

44. Mae'r cyfreithiau sydd mewn grym ar adeg ysgrifennu'r adroddiad ar unioni camweddau yn y berthynas rhwng landlord a tenant, yn arbennig mewn cysylltiad â mathau o denantiaethau ag achosion meddiant, yn gymhleth ac yn cwmpasu gwahanol ffynonellau. Unwaith eto, mae llwybr cychwynnol tenant at unioni camweddau statudol drwy adolygiad gweinyddol mewnol, ond ar y cyfan nid yw awdurdodau lleol yn cadw cofnodion penodol o adolygiadau y gwnaed cais amdanynt a'u canlyniadau, ac mae ceisiadau yn gymharol brin. Mae adolygiadau'n cael eu llywodraethu gan wahanol reoliadau, a chanllawiau gwahanol ar ba weithdrefn i'w dilyn yn dilyn y broses adolygu, a hynny ar draws cyfreithiau Cymru a chyfreithiau Cymru a Lloegr.
45. Bydd Rhentu Cartrefi Cymru yn disodli'r prydles i a'r trwyddedau presennol gyda dau fath o 'contract meddiannaeth'; contract sicr sydd wedi'i fodelu ar y denantiaeth ddiogel a ddefnyddir gan awdurdodau lleol yn awr, a chontract safonol sydd wedi'i fodelu ar y tenantiaethau byrddaliad sicr cyfredol a ddefnyddir gan y sector preifat. Gallai hyn wella cyfiawnder gweinyddol yng Nghymru oherwydd bwriedir i hyn sefydlu fframwaith cyfreithiol cliriach a mwy cyson, ac felly'r bwriad o greu llai o anghydfodau. Mae ein Hadroddiad yn canolbwyntio yn bennaf ar y camau unioni camweddau sydd ar gael o dan contractau sicr fel rhan o Rhentu Cartrefi Cymru, sy'n rhoi mwy o sicrwydd meddiannaeth i ddeiliad y contract.
46. Mae Rhentu Cartrefi Cymru yn cysoni llawer o'r cyfreithiau sy'n berthnasol i LCC ac awdurdodau lleol, gan ychwanegu grym ychwanegol i'n barn y gallai dull sy'n seiliedig ar 'barth' ar gyfer rheoleiddio ac ehangu cymhwyster cyfreithiau gweinyddol cyffredinol Cymru i LCC

fod yn ddymunol. Fodd bynnag, mae hefyd yn arwydd o duedd yng nghyfreithiau tai Cymru i wneud newidiadau cyfreithiol sylweddol, heb ystyried y llwybrau at unioni camweddau. Mae rhai agweddau ar ddeddfwriaethau sylfaenol y Cynulliad yn unigryw, ond mae llawer o'r is-ddeddfwriaethau (er enghraifft offerynnau statudol) yn union gopi o gyfreithiau Lloegr ar y cyfan (gwelwn hyn yn y rheoliadau ynghylch gweithdrefnau adolygiadau mewnol), er hynny nid oes unrhyw asesiadau manwl wedi'u cynnal i ganfod a yw'r llwybrau hyn at unioni camweddau yn gweithio'n gymesur, yn deg ac effeithiol.

47. Mae nifer o faterion cyfiawnder gweinyddol yn cael eu codi gan Rhentu Cartrefi 2016 gan gynnwys; dibyniaeth ar adolygiadau gweinyddol mewnol fel y dull cyntaf o unioni camwedd ac ar apeliadau a math newydd o adolygiad cyfreithiol y llys sirol fel yr ail gam; cyfundrefnu rhesymoldeb (p'un a yw hysbysiad meddiant yn rhesymol) a allai egluro'r gyfraith ond a allai hefyd gyfyngu ar ddatblygiad ac arwain at anghydfodau cyfreithiol technegol; a phŵer y landlord i wahardd deiliad contract o annedd dros dro am 48 awr (heb unrhyw hawl i unioni camwedd ac eithrio'r adolygiad barnwrol wrth gefn - a allai fynd yn groes i Erthygl 6 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR) yn ôl yr arbenigwyr cyfreithiol wrth ymateb i'n hymchwil).
48. Mae Rhentu Cartrefi Cymru yn adlewyrchu llawer o'r cyfreithiau cyfredol ar unioni camweddau; fodd bynnag, fel y nododd cyfranogwyr ein hymchwil, mae'n canolbwyntio mwy ar y llysoedd, gan gyflwyno hawliau newydd i denantiaid geisio sicrhau adolygiad cyfreithiol yn y llysoedd sirol o benderfyniadau rhai landlordiaid cymunedol. Y sefyllfaoedd hyn yw'r rhai y byddai tenantiaid ond wedi gallu ceisio adolygiad barnwrol yn y Llys Gweinyddol yn y gorffennol, neu mewn sefyllfaoedd newydd sy'n gysylltiedig â darparu gwybodaeth am gontractau ac anghydfodau contract. Mae llysoedd sirol eisoes wedi derbyn y dasg reolaidd o gymhwyso egwyddorion cyfreithiau gweinyddiaeth gyhoeddus, gan gynnwys yr egwyddor o gymesuredd mewn hawliadau sy'n gysylltiedig â hawliau dynol. Mae hyn fel arfer yn digwydd mewn achosion meddiannaeth (fel 'amddiffyniad' i bob pwrpas i weithrediadau meddiannaeth), neu pan fydd ymgeisydd yn herio cyfreithlondeb penderfyniad awdurdod lleol yng nghyd-destun digartrefedd (yn aml ar sail hawliau dynol).<sup>10</sup> Fodd bynnag, mae darpariaethau Rhentu Cartrefi Cymru yn unigryw am eu bod yn cyflwyno llwybr statudol newydd at adolygiad yn y llys sirol. Yn ddefnyddol mae hyn yn debygol o fod yn system ratach, fwy cymesur a llai cymhleth i'r partion, o gymharu ag adolygiad barnwrol yn y Llys Gweinyddol. Mae Comisiwn y Gyfraith wedi cymeradwyo'r syniad yn y gorffennol bod y llysoedd sirol wedi'u cymhwyso'n well i ymdrin ag anghydfodau cyfraith gyhoeddus yng nghyd-destun tai gan nodi: 'Yn ein barn ni, mae'r llys sirol yn fforwm gwell ar gyfer penderfynu ar faterion tai, p'un a ydynt yn seiliedig ar egwyddorion cyfraith gyhoeddus neu gytundebau meddiannaeth'.<sup>11</sup> Fodd bynnag, bu oedi wrth gyflwyno Rhentu Cartrefi Cymru oherwydd yr angen i gysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder/Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM er mwyn datblygu'r rheolau gweithdrefnol angenrheidiol, ffurflenni llys a phrosesau eraill sydd eu hangen ar gyfer y mathau newydd hyn o hawliadau cyfreithiol. Mae ein hymchwil yn awgrymu mai anaml iawn y bydd y gweithdrefnau newydd hyn yn cael eu defnyddio, yn ôl pob tebyg, ac na chynhaliwyd unrhyw ddadansoddiad manwl o'r costau/buddiannau gan gynnwys amrediad o ddulliau amgen ar gyfer datrys anghydfodau.

**Argymhelliad 15: Dylai Cod Tai arfaethedig i Gymru gynnwys dull wedi'i gyfuno a'i godeiddio at gynnal adolygiadau gweinyddol mewnol mewn awdurdodau lleol (a LCC hefyd) ar gyfer penderfyniadau tai gan gynnwys dyraniadau, cyflwyno Hysbysiad**

<sup>10</sup> *Cyngor Dinas Manceinion v Pinnock* [2010] UKSC 45.

<sup>11</sup> Comisiwn y Gyfraith, *Rhentu Cartrefi* (Comisiwn y Gyfraith Rhif 284, Tachwedd 2003) paragraffau.9.107-9.108.

Adennill Meddiant, digartrefedd a'r amrediad eang o adolygiadau gweinyddol mewnol sydd wedi'u cynnwys yn Rhentu Cartrefi Cymru. Gallai hyn osgoi dyblygu gofynion cyffredinol, sicrhau mwy o gysondeb a thryloywder, a gallu darparu eithriadau penodol pynciau yr un pryd pan fydd angen (e.e. pan fydd terfynau amser ar gyfer ceisio adolygiad yn briodol).

Argymhelliad 16: Dylai cam cyfuno/codeiddio gael ei ragflaenu gan asesiad manylach, ar sail tystiolaeth, o'r defnydd a gwerth gweithdrefnau adolygiad mewnol yn y sector tai cymdeithasol yng Nghymru gan gynnwys o dan Rhentu Cartrefi Cymru ar ôl i'r ddeddf ddod i rym. Yn benodol, y dylai adolygiad o'r fath drafod a fyddai'n bosibl allanoli rhai o'r adolygiadau mewnol sy'n cael eu cynnal gan awdurdodau lleol i gorff annibynnol.

Argymhelliad 17: Mae'r diffyg llwybrau statudol at unioni camweddau mewn rhai meysydd o benderfyniadau ar dai cymdeithasol yn ddryslyd, nid oes cyfiawnhad da drostynt ac mae'n golygu nad yw pobl yn cyrraedd y bar statudol er mwyn i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fynd i'r afael â chwyn. Dylai diwygiadau i'r cyfreithiau cyfredol neu God Tai newydd arfaethedig i Gymru lenwi'r bylchau yn y system bresennol lle bydd ond yn bosibl herio rhai penderfyniadau gweinyddol drwy adolygiad yn y Llys Sirol, a naill ai darparu ar gyfer camau unioni camweddau yn y llys, neu gamau amgen (e.e. mewn tribiwnlys) sy'n gydlynol a chyson.

Argymhelliad 18: Dylai Llywodraeth Cymru fonitro a gwerthuso'r defnydd o weithdrefnau unioni camweddau yn y llys, a gyflwynwyd gan Rhentu Cartrefi Cymru. Dylai Llywodraeth Cymru fonitro'r defnydd o'r pŵer i eithrio deiliad contract ar sail dros dro ac a ddylid cyflwyno hawl i ofyn am adolygiad brys mewn cysylltiad â phenderfyniadau gwahardd o'r fath.

## Llysoedd a Thribiwnlysoedd

49. Mae cwestiynau'n parhau o ran a ddylid mabwysiadu dull gwahanol o unioni camweddau o dan Rhentu Cartrefi Cymru, yn benodol gwneud mwy o ddefnydd o Dribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru. Roedd nifer o ymatebwyr i ymchwiliad Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau'r Cynulliad i egwyddorion cyffredinol o blaid gwneud mwy o ddefnydd o Dribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru. Ymhlith rhai o'r materion a godwyd yn y drafodaeth oedd:

Mae *Ymwybyddiaeth* o Dribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru a'r *Defnydd* ohono yn gyfyngedig ar hyn o bryd oherwydd: mae ei awdurdodaeth yn gymharol arbenigol; mae rhai landlordiaid cymdeithasol wedi ysgrifennu eu cytundebau tenantiaeth yn benodol i eithrio awdurdodaeth y Tribiwnlys; gwybodaeth gyfyngedig sydd ar gael am ddatrys anghydfodau a rôl y Tribiwnlys (ymhlith tenantiaid a landlordiaid) a chyhoedduswyd cyfyngedig am y tribiwnlys. Fodd bynnag, rhoddir rôl newydd i Dribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru o dan Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 ac o dan Ddeddf 2014, a allai gynyddu ymwybyddiaeth a defnydd.

*Adnoddau/Capasiti:* Ar hyn o bryd baich achosion Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru yw tua 150 o geisiadau'r flwyddyn, tra bod tua 4,500-6,000 o hawliadau'n cael eu cyflwyno yn y llysoedd sirol yng Nghymru. Fel y mae, ni allai'r tribiwnlys wneud penderfyniadau ar hawliadau meddiannaeth (oherwydd adnoddau), ond byddai trosglwyddiad o'r fath hefyd yn galw am newid mewn meddylfryd o faich gwaith presennol Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru. Fodd bynnag, gellir cyflawni hyn wrth ddatblygu a chyflwyno hyn dros amser.

*Arbenigedd, Gweithdrefnau, Mynediad at Gyngor a Chynrychiolaeth:* Bwriedir i Dribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru fod ar gael i denantiaid heb gymorth cyfreithiol, ond nid yw hyn yn wir yn y llysoedd sirol, am ddau reswm mae'n debyg: 1. Natur yr achosion llys yn gyffredinol a 2. Y math o anghydfod sy'n cael eu trafod ym mhob awdurdodaeth ac arbenigedd perthnasol.

*Y rhyngberthynas rhwng y mathau o achosion, apeliadau ac adolygiadau:* Gallai fod cymhlethdod awdurdodaeth er enghraifft, pe byddai hawliadau adfeiliad yn cael eu trosglwyddo i Dribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru gyda'r hawliadau adennill meddiant yn aros yn y llys sirol. Fodd bynnag, gellir mynd i'r afael â'r mathau hyn o bryderon drwy fabwysiadu'r prosesau sy'n cael eu treialu yn Lloegr lle gall un barnwr (neu banel o farnwyr yn ôl yr angen) eistedd fel barnwyr y llys sirol a thribiwnlys eiddo preswyl perthnasol.

*Cymorth Cyfreithiol:* Nid oes unrhyw gymorth cyfreithiol ar gael ar gyfer achosion Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru tra bod rhai achosion tai ac achosion cysylltiedig yn y llys sirol yn parhau i gael eu cwmpasu. Nid yw achosion adfeiliad yn cael eu cwmpasu gan gymorth cyfreithiol ac felly gallai hyn atgyfnerthu'r farn y gellir trosglwyddo'r rhain i Dribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru yn gymharol rwydd. Fodd bynnag, mae cymorth cyfreithiol ar gael ar gyfer achosion adennill meddiant, a chodir cwestiynau ynghylch a fyddai trosglwyddo'r achosion hyn i Dribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru hefyd yn golygu darparu cymorth cyfreithiol yn yr hawliadau hyn gerbron y Tribiwnlys (ond oherwydd ei fod yn fater a gedwir yn ôl, nid yw hyn yn fater i Lywodraeth/Cynulliad Cymru). Ymddengys bod pryder hefyd ymhlith darparwyr cyngor annibynnol bod symleiddio'r gyfraith a fyddai'n digwydd yn sgil Rhentu Cartrefi Cymru dylai fod yn haws ei ddeall na'i ddeddfwriaeth dameidiog a ragflaenodd.

50. Ni allwn fod yn sicr a fydd Rhentu Cartrefi Cymru yn lleihau nifer yr anghydfodau, ond o safbwynt cyfiawnder gweinyddol, mae'n ail-ddeddfu dulliau presennol datrys anghydfodau (adolygiadau mewnol ac apeliadau'r llys sirol) ac yn cyflwyno gweithdrefnau newydd (adolygiadau cyfreithiol y llys sirol), sy'n awgrymu y gallai'r angen am y cyngor a'r gwasanaeth eiriolaeth hwn fod yn gyfartal, neu'n uwch, na'r angen presennol, yn arbennig yn y blynyddoedd cynnar ar ôl ei chyflwyno. Roedd Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau'r Cynulliad o'r farn bod Rhentu Cartrefi Cymru yn rhoi gormod o ddibyniaeth ar y llysoedd i ddatrys anghydfodau, ac argymhellwyd y dylid ehangu rôl Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru. Fodd bynnag, ymatebodd Gweinidogion Cymru gan ddweud nad oes gan y Tribiwnlys y capasiti ac ni chynhaliwyd unrhyw adolygiad pellach o'r costau/buddiannau hyd yma.
51. Cafodd y mater hwn ei drafod gan y Comisiwn Cyfiawnder a nododd: 'Bu tuedd yn y ddeddfwriaeth a basiwyd gan y Cynulliad i nodi y dylid cynnal achosion datrys anghydfodau yn y Llys Sirol neu yn y llysoedd a thribiwnlysoedd heb eu datganoli. Rydym o'r farn bod hyn yn anghyson oherwydd bod tribiwnlysoedd arbenigol yng Nghymru sydd â'r cymhwyster a'r gallu i benderfynu anghydfodau'.<sup>12</sup> O ganlyniad, argymhellodd: 'Y dylid defnyddio tribiwnlysoedd Cymru er mwyn datrys anghydfodau sy'n gysylltiedig â deddfwriaeth Cymru yn y dyfodol'. Mae Rhentu Cartrefi Cymru yn amlygu llawer o'r materion a allai godi wrth geisio gweithredu'r argymhelliad hwn.
52. Mae'r drafodaeth ynghylch gwneud defnydd mwy helaeth o Dribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru yn arwydd o'r materion a ddatgelwyd gan gynigion amrywiol i symleiddio'r system datrys

---

<sup>12</sup> Comisiwn Cyfiawnder, para 6.59.2.



anghydfodau tai yng Nghymru a Lloegr. Er enghraifft, sefydlu llys tai unigol o bosibl, sy'n cael ei ystyried yn awr gan Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol y DU yn awr. Byddai'r llys unigol yn cyfuno awdurdodaethau datrys anghydfodau tai y llysoedd sirol (yng Nghymru a Lloegr) a Siambr Eiddo'r Tribiwnlys Haen Gyntaf (Lloegr, a Chymru a Lloegr mewn rhai achosion), oni ni fyddai (mae'n ymddangos) yn cwmpasu awdurdodaeth Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru. Mae'n bosibl y gallai'r Tribiwnlys gael ei gwmpasu o fewn llysoedd tai Cymru a Lloegr, a chynigiwyd 'gwrthdroi datganoli' o'r fath gan Gomisiwn y Gyfraith mewn ymgynghoriad yn 2007 ar Ddatrys Anghydfodau yn Gymesur ym maes tai.<sup>13</sup> 1. Fodd bynnag, mae'n annhebygol iawn y byddai hyn yn digwydd o ystyried y cyd-destun a'r amrywiaethau gwleidyddol rhwng cyfreithiau Cymru a Lloegr.

53. Gofynnwyd am farn ymatebwyr ein harolwg ar lys neu dribiwnlys tai unigol i Gymru. Roedd rhai ymatebion yn gysylltiedig â lleoliad ymarferol unrhyw lys/tribiwnlys arfaethedig, er enghraifft pe byddai'n cynnull mewn un lleoliad, neu yn y prif ddinasoedd o bosibl, byddai hyn yn achosi problemau hygrychedd, tra bod Tribiwnlys Eiddo Cymru yn fwy hyblyg o ran lle mae'n cynnull. Dywedodd ymatebwyr eraill y gellir mynd i'r afael â rhai o'r problemau hygrychedd pe byddai'r llys/tribiwnlys yn cynnig opsiynau digidol (o gyflwyno achosion a rheoli achosion yn ddigidol i gynnal gwrandawiaidau ar-lein, neu hyd yn oed y math o 'ddatrysiadau ar-lein parhaus' sy'n cael eu treialu yn rhai o dribiwnlysoedd Cymru a Lloegr).
54. Mae'r Comisiwn ar Gyfiawnder wedi mynd gam ymhellach, gan ddadlau'n fwy cyffredinol: 'mae'r strwythur presennol ar gyfer datrys anghydfodau yn dangos bod angen uno llysoedd a thribiwnlysoedd, ar gyfer cyfiawnder sifil a chyfiawnder gweinyddol'.<sup>14</sup> Mae hyn ar raddfa llawer mwy, nid yn unig mewn cysylltiad ag anghydfodau cyfreithiau tai cyhoeddus (a phreifat), ond hefyd i lawer o feysydd pwnc anghydfodau. Roedd gan ein hymatebwyr rai amheuan ynglŷn ag uno, gan gynnig lle mae hyn wedi digwydd yng Nghymru a Lloegr (ar lefel weinyddol o leiaf) roedd tribiwnlysoedd wedi colli'r adnoddau ariannol angenrheidiol i rentu lleoliadau lleol cyfleus ar gyfer gwrandawiaidau (gwestai, canolfannau cymunedol ac yn y blaen) ac wedi'u cyfyngu i adeiladau llysoedd (ochr yn ochr â rhaglen helaeth o gau llysoedd). Er hynny, roedd ein hymatebwyr yn cytuno ar y cyfan y byddai awdurdodaeth unigol ar gyfer anghydfodau tai yn arwain at fwy o gysondeb mewn penderfyniadau.
55. Ar wahân i gynnig llys tai unigol, mae mentrau polisi eraill yn cynnwys cydlynu neu 'groesdocynnu' barnwyr mewn ffordd hyblyg er mwyn i anghydfodau tai sydd ag elfennau sydd wedi'u gwasgaru ar draws y llysoedd sirol a'r tribiwnlysoedd perthnasol, yn cael eu clywed gan un barnwr, mewn un gwrandawiad, sy'n eistedd yr un pryd â barnwr llys a thribiwnlys.<sup>15</sup> 1.  
Mae barnwyr y tribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru eisoes wedi'u traws-leoli i dribiwnlysoedd eraill, ac rydym yn dadlau y gallai traws-leoli o'r llys i dribiwnlysoedd yng Nghymru fod yn effeithiol hefyd, gan nodi barnwyr sydd â'r arbenigaeth a'r profiad priodol. Fodd bynnag, byddai'n rhaid mynd i'r afael â'r swyddogaethau rheoli achosion, gan gynnwys a fyddai tribiwnlysoedd datganoledig Cymru yn mabwysiadu'r system 'Data Achosion Craidd', system ddigidol sy'n debygol o gael ei chyflwyno ar draws llysoedd a thribiwnlysoedd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM.
56. Rydym o'r farn y byddai rhyw fath o ddull 'wedi'i gysoni' (naill ai mewn llys neu dribiwnlys unigol, neu drwy 'ryngweithrediad' hyblyg rhwng y llysoedd a thribiwnlysoedd presennol) yn

---

<sup>13</sup> Comisiwn y Gyfraith, *Housing: Proportionate Dispute Resolution* (Comisiwn Cyfiawnder Rhif 309, 2008).

<sup>14</sup> Comisiwn Cyfiawnder, para 5.56.

<sup>15</sup> <https://www.gov.uk/government/consultations/considering-the-case-for-a-housing-court-call-for-evidence> para 31.

briodol. Dylai awdurdodaeth neu lwybr o'r fath wedi'i gysoni gael ei nodweddu gan y nodweddion argymhellidig canlynol:

Argymhelliad 19:

- Mae'n rhaid i achosion tai gael eu clywed gan farnwyr sy'n meddu ar yr arbenigedd a'r profiad priodol ac wedi'u cefnogi'n briodol gan bersonau lleyg arbenigol (e.e. syrfewyr a phriswyr arbenigol)
- Mae'n rhaid i gymorth cyfreithiol fod ar gael ar gyfer cymorth cyngor a chymorth p'un a yw awdurdodaeth unigol yn cael ei ystyried yn llys neu'n dribiwnlys
- Mae'n rhaid ymdrin ag achosion drwy weithdrefnau priodol, neu lwybrau priodol, e.e., rheolwyr achos ddylai benderfynu a fyddai'n well mynd i'r afael ag anghydfodau penodol drwy dull amgen o ddatrys anghydfod, proses fwy ymchwilgar (gyda phroses fwy gwrthwynebol yn opsiwn bob amser, hyd yn oed os na wneir defnyddir rheolaidd ohoni)
- Ni ddylai'r llys/tribiwnlys unigol fod wedi'i leoli mewn un lleoliad, mae'n rhaid bod mynediad lleol a mynediad digidol rhwydd gan ddefnyddio dyluniad arfer gorau.

57. Wrth i ni gwblhau ein Hadroddiad Tai, cyhoeddodd Gweithgor JUSTICE ai astudiaeth, *Solving Housing Disputes*. Mae'r astudiaeth hon yn cynnig Gwasanaeth Anghydfodau Tai (HDS) newydd ac ni fyddai'n llys, yn dribiwnlys nac yn sefydliad sy'n gysylltiedig â'r Ombwdsmon, yn hytrach byddai'n fodel holistaidd at ddatrys anghydfodau. Prif nodweddion yr HDS yw y byddai'n cael ei ddylunio i fod yn ymchwiliol, holistaidd ac yn amlddisgyblaeth, yn arbenigol ac o safon, ac yn meithrin perthnasoedd parhaus, yn cynorthwyo a diogelu cyfranogwyr, yn defnyddio dulliau a data digidol er mwyn dysgu a gweithredu mewn ffordd nad yw'n wrthwynebus. Byddai'r HDS yn mabwysiadu meddylfryd o ddatrys problemau a fyddai'n cael ei argymhell gan y Comisiwn Cyfiawnder ar gyfer Cymru, a chredwn y byddai'n mabwysiadu'r 'Pum Ffordd o Weithio' o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.<sup>16</sup> Byddai'r HDS yn ceisio mynd i'r afael â phroblemau 'clystyrog' lle mae'n bosibl nad y sbardun i'r anghydfod oedd y prif fater canolog rhwng y partion (e.e. budd-daliadau, dyled ac iechyd). Mae'r Gweithgor JUSTICE o'r farn y bydd cynghorwyr cyfreithiol yn parhau i fod yn bwysig i'r system ac y byddant yn gweithio ochr yn ochr (neu mewn rhai achosion o fewn) y Gwasanaeth Anghydfodau Tai ar *gyfraddau cynaliadwy*. Mae JUSTICE hefyd yn argymhell y byddai angen i'r Gwasanaeth fod yn hygyrch, a hynny wyneb yn wyneb, dros y ffôn ac yn ddigidol; byddai angen iddo gael ei adnabod yn eang fel gwasanaeth sydd am ddim a byddai'n rhaid i'r gwasanaeth weithredu mewn dull cyfeillgar i ddefnyddwyr.

58. Derbyniodd y syniad o Wasanaeth Anghydfodau Tai wrthwynebiad chwyrn gan aelodau o Weithgor Cymdeithas Ymarferwyr Cyfraith Tai (HLPa). Roedd pryderon HLPa yn cynnwys digonolrwydd methodoleg yr adroddiad a maint yr ymgysylltu â rhanddeiliaid, ynghyd â chwestiynu a fyddai'r HDS yn cael ei ariannu'n briodol (ac yn benodol a fyddai cyfreithwyr yn cael eu hariannu i 'gyfraddau cynaliadwy' a beth fyddai eu rolau mewn gwirionedd). Roeddent hefyd yn poeni am weithdrefnau arfaethedig y Gwasanaeth a phwerau ei swyddogion i wneud penderfyniadau ar faterion wedi'u clystyru (er enghraifft budd-daliadau). Dadleuodd aelodau'r HLPa hefyd y gallai disodli'r haenau hynny o'r system llysoedd a thribiwnlysoedd y gwneir y defnydd mwyaf ohonynt (ynadon, llys sirol a Thribiwnlys haen gyntaf) gyda'r hyn yr oeddent yn cyfeirio ato fel dull o 'reoli perthynas' yn hytrach na phenderfynu ar hawliau cyfreithiol, fynd yn groes i Erthygl 6 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (er y bwriedir i'r hawl i apelio i lys neu dribiwnlys uwch o'r Gwasanaeth Anghydfodau Tai fod ar gael fel hawl).

<sup>16</sup> Y rhain yw: yr hirdymor, atal, integreiddio, cydweithredu a chynnwys

Roedd HPLA hefyd yn bryderus ynglŷn â graddau'r orfodaeth i ddefnyddio dulliau amrywiol ADR.

59. Er gwaethaf y gwrthwynebiad cryf, mae rhywfaint o gytuno rhwng y mwyafrif o Weithgor JUSTICE ac aelodau'r HPLA. Yn gyntaf, bod y problemau presennol wedi codi i raddau helaeth oherwydd tan-gyllido cymorth cyfreithiol a'r llysoedd sirol. Mae Cymdeithas y Gyfraith Cymru a Lloegr wedi bod yn amheus o greu llys tai unigol, am resymau tebyg (sef bod y problemau presennol yn deillio o dan-gyllido a'r amser a gymerir i gydymffurfio â'r gweithdrefnau cyfreithiol sy'n *angenrheidiol* er mwyn diogelu unigolion mewn anghydfodau ynghylch eu tai). Yn ail, bod barnwyr a chyfreithwyr eisoes yn ceisio cynnal perthnasoedd rhwng partion mewn anghydfod a mabwysiadu dulliau ymchwilgar (fel y canfuom yng Nghymru drwy arsylwi achosion llys). Yn drydydd, bod croes-docynnu a/neu draws-leoli barnwyr yn un dull o liniaru'r rhaniadau yn y system bresennol. Yn bedwerydd, er gwaethaf rhywfaint o amwysedd ar y pwynt hwn, mae cyfreithiau tai yn gymhleth, ond nid yw llawer o anghydfodau tai, (gan ychwanegu tystiolaeth bellach yn ein barn ni, i'r achos dros gyfuno a chyfundrefnu cyfreithiau tai Cymru).
60. Awgrymwn fod dau fater sy'n creu anghytuno rhwng y mwyafrif a'r hyn y mae'r HPLA yn anghytuno arno, ac mae'r ddau fater yn ymwneud â rôl cyflogwyr ar y cyfan. Noda HPLA o dan y model cymorth cyfreithiol presennol, nad yw gwaith help cyfreithiol (e.e., darparu cyngor ar faterion digartrefedd neu osgoi achosion adennill meddiant y llys sirol) yn cael ei ariannu'n ddigonol i dalu'r costau. Mae aelodau HPLA yn gwneud bywoliaeth i bob pwrpas drwy sybsideiddio'r gwaith hwn drwy gynrychiolaeth ymgyfreitha a gorchmynion costau *inter partes*. Mae HPLA o'r farn nad yw'r risgiau o symud i fodel newydd er mwyn datrys anghydfodau (y HDS arfaethedig) yn cyfiawnhau'r manteision posibl, y gellir eu sicrhau drwy ariannu cymorth cyfreithiol yn well. Fodd bynnag, gallai hyn gamddeall rhai o elfennau allweddol yr HDS, yn nhermau ei nodau i ddiogelu'r bobl fwyaf agored i niwed, ac i godi safonau datrys anghydfodau (yn hytrach na'u gostwng, sef pryder HPLA). Er hynny, mae HPLA yn codi'r pwynt sy'n addysgiadol iawn i gyfiawnder gweinyddol yng Nghymru. Sef mai prif ddiben anghydfodau yw sicrhau'r diogelwch hawliau cyfreithiol mwyaf i unigolion. Mae penderfynu ar hawliau sy'n cael eu gwarantu gan y gyfraith yn wahanol i ddatrys problemau, meithrin perthnasoedd da, neu hyrwyddo arfer gweinyddol a llesiant da a gwerthoedd eraill.
61. Nid yw JUSTICE yn trafod cyd-destun Cymru yn benodol, mae'n cynnig 'gwasanaeth cenedlaethol gyda swyddfeydd lleol',<sup>17</sup> ac mae'n ymddangos eu bod yn bwriadu i 'genedlaethol' olygu 'Cymru a Lloegr. Mae JUSTICE yn cynnig bod y HDS yn ymgymryd ag anghydfodau sy'n cael eu cynnal yn y Tribiwnlys Haen gyntaf (Siambr Eiddo), y llysoedd sirol a'r llysoedd ynadon. Byddem yn gofyn felly: a fyddai'n gywir dweud y dylai HDS '*rhanbarthol*' Cymru gynnwys awdurdodaeth (yn y gorffennol a'r dyfodol) Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru, neu a fydd '*HDS Cymru*' hollol ar wahân yn y pendraw?
62. Mae JUSTICE yn cynnig cyfuno awdurdodaethau amrywiol yr ombwdsmon sydd â chyfrifoldeb dros gamweinyddiaeth ar draws y sector tai (cyhoeddus a phreifat) yn y HDS, ond nid yw'n trafod sefyllfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Bydd yn ddryslyd i bobl yng Nghymru os bydd 'siop un cam' unigol ar gyfer yr *holl* gwynion am gamweinyddiaeth tai, cyhoeddus a phreifat, ac eithrio'r rhai sydd o dan awdurdodaeth yr Ombwdsmon yn awr. Hefyd, nid yw hyn yn ystyried bod gan yr Ombwdsmon bwerau ei hun, yn wahanol i ombwdsmy'n Lloegr a'r DU a fyddai'n cael eu cyfuno a'u cynnwys i'r HDS. Unwaith eto, y cwestiwn i Gymru yw a ddylai HDS rhanbarthol Cymru gynnwys awdurdodaeth cwynion

---

<sup>17</sup> *Solving Housing Disputes*, para 2.20.

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru hefyd, neu a fydd gan Gymru HDS ei hun (a beth fyddai'n cael ei gwmpasu gan y gwasanaeth hwnnw?).

63. Gallai 'HDS Cymru' fynd i'r afael â rhai o'r pryderon a godwyd gan y Comisiwn ar Gyfiawnder. Er enghraifft, mae'r llwybrau at ddatrys anghydfodau yn rhy amrywiol, rhanedig a chymhleth a gallai'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd sy'n datrys anghydfodau cyfreithiau sifil a gweinyddol gael eu uno yng Nghymru yn y pen draw. Gallai 'HDS Cymru' uno Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru, ac awdurdodaeth y llysoedd sirol a'r llysoedd ynadon yng Nghymru o ran materion tai. Gallai uniad o'r fath gynnwys awdurdodaeth 'newydd' i adolygu cyfreithiau gweinyddol llysoedd sirol yng Nghymru o dan Rhentu Cartrefi Cymru. Yn ôl pob tebyg gallai 'HDS Cymru' gynnwys awdurdodaeth presennol y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Siambwr Eiddo) ynghylch anghydfodau rhwng partion yng Nghymru. Gallai 'HDS Cymru' hefyd gynnwys adolygiadau gweinyddol digartrefedd yn unol â Deddf 2014. Roedd JUSTICE yn argymhell y gellir allanoli adolygiadau mewnol tebyg yn Lloegr i'r HDS, ac roedd y rhai a oedd yn anghytuno yn HLPAs o leiaf yn cytuno y gellir trosglwyddo'r cyfrifoldeb am yr adolygiadau hyn oddi ar awdurdodau lleol i gorff annibynnol.
64. Byddai materion daearyddol traws-ffiniol yn codi mewn cysylltiad â 'HDS Cymru' a 'HDS Lloegr, ond byddai materion tebyg yn codi ar draws ffiniau awdurdodaeth canghennau (neu wasanaethau) rhanbarthol gwahanol HDS Lloegr
65. Fodd bynnag, mae'r cynnig hwn yn amlwg yn codi ystyriaethau sy'n ymwneud â datganoli. Nid yw gweinyddu llysoedd sirol a'r llysoedd ynadon wedi'i datganoli i Gymru ar hyn o bryd, nac awdurdodaeth y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Siambwr Eiddo) yng nghyd-destun achosion yng Nghymru. Gallai HDS Cymru, fel cangen 'ranbarthol' o HDS Cymru a Lloegr, fod yn annerbyniol o bosibl am resymau gwleidyddol a byddai angen 'gwrthdroi datganoli' awdurdodaeth Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru i bob pwrpas (ac awdurdodaeth cwynion tai Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru hefyd o bosibl). Ar y llaw arall, byddai 'HDS Cymru' unigol yn galw am ddatganoli cyfrifoldeb dros yr agweddau hynny o ddatrys anghydfodau sy'n cael eu cynnal gan gyrff a gedwir yn ôl (llysoedd sirol, llysoedd ynadon a'r Tribiwnlys Haen Gyntaf). Gellir gosod hyn yng nghyd-destun ehangach y cafodd argymhelliad y Comisiwn ar Gyfiawnder am ddatganoli deddfwriaethol a gweithredol cyfiawnder ei wrthod yn gyflym gan Lywodraeth y DU. Mae'r cwestiwn cysylltiedig hefyd o sut y byddai 'HDS Cymru' yn cael ei ariannu, naill ai fel cangen o HDS Cymru a Lloegr neu fel sefydliad ar wahân (datganoledig o bosibl) i Gymru (a phe byddai'r HDS yn cael ei ddatganoli'n llwyr, a fyddai cyllid digonol yn cael ei drosglwyddo hefyd).
66. Mae'n annhebygol y bydd Llywodraeth Cymru yn osgoi ymgysylltu mewn ymgynghoriad manwl ar ddyfodol datrys anghydfodau tai yng Nghymru (gan gynnwys cyfreithiau cyhoeddus sy'n cael eu cwmpasu gan ein Hadroddiad a chyfreithiau preifat) p'un a yw'r HDS yn cael ei dreialu yn ôl y bwriad yn y pen draw. Bydd unrhyw ddiwygiadau eraill a gynigir gan Lywodraeth y DU yn cael effeithiau penodol yng Nghymru, a bydd angen penderfynu a fydd Cymru'n parhau i alinio ei dulliau o ddatrys anghydfodau tai gyda rhai Lloegr, er gwaethaf y gwahaniaethau sylweddol o ran polisi, rheoleiddiad, a chyfraith o sylwedd.
67. Un maes polisi allweddol o wahaniaethau polisi gyda Lloegr yw bwriad Llywodraeth Cymru i hyrwyddo gwirediad blaengar o'r hawl i dai digonol. Ym mis Mehefin 2019 lansiodd Tai Pawb, CIH Cymru a Shelter Cymru adroddiad a gomisiynwyd ar y cyd yn amlinellu'r effaith y gallai ymgorffori'r hawl y Cenhedloedd Unedig i dai digonol ei chael yng Nghymru. Amlinellodd yr adroddiad nifer o ffyrdd y gallai Llywodraeth Cymru ymgorffori'r hawl: anffurfiol, ffurfiol, a dull deuol o'r ddau. Argymhellodd yr Adroddiad yr opsiwn olaf hwn, gan

fod hyn yn caniatáu ar gyfer ‘fframwaith rhagweithiol cadarn ar gyfer llunio polisi a gorfodaeth gref pe bai’r hawl i dai yn cael ei dorri’.<sup>18</sup> Er bod cyfranogwyr ein gwaith ymchwil yn cydnabod gwerth posibl ‘hawl’ i dai digonol fel dull o sefydlu fframwaith ar gyfer polisi, roedd llawer yn bryderus y gallai arwain at ddisgwyliadau afrealistig ar ddarparwyr tai cymdeithasol, ac na fyddai’n cael llawer o effaith ymarferol oni fyddai’n cael ei ategu gan gynnydd sylweddol i’r stôr tai cymdeithasol. Ni fyddai dull gyfredol Llywodraeth Cymru, un ai dyletswydd fframio polisi neu dyletswydd i roi ‘sylw dyledus’ yn y canllawiau, yn rhoi hawl cyfreithiol y gellir ei orfodi’n uniongyrchol neu’n anuniongyrchol i unigolion, byddai’n ddyletswydd hyrwyddol ac/neu weithdrefnol ar y cyfan (ac fel y gwelwch, mae adolygiad barnwrol i orfodi ystyriaethau polisi yn arbennig yn annhebygol iawn yng Nghymru). Awgrymwyd hefyd, waeth beth fydd statws yr hawl, dylai termau megis ‘tai’ a ‘thai digonol’ fod yn glir mewn deddfwriaethau a chanllawiau, a bod angen diwygio cyfreithiau presennol ar safonau tai cymdeithasol, iechyd a diogelwch a’r seiliau dros adennill meddiant. Un mater cyfreithiol ac ymarferol arall a godwyd gan yr ymatebwyr oedd mai awdurdodau lleol fyddai’n gyfrifol am gydymffurfio â hawl i dai digonol, ond yr oedd y mwyafrif o awdurdodau wedi trosglwyddo rhywfaint o’u stoc neu eu stoc cyfan i LCC. Roedd ymatebwyr o’r farn nad oedd yn glir felly beth fyddai effeithiau cyfreithiol ac ymarferol deddfu hawl i dai ar y berthynas rhwng y cyrff hynny, gan ychwanegu elfen bellach o gymhlethdod i dirwedd sydd eisoes yn un drwslyd.

### Adlewyrchiadau i Gloi

68. **Yn ein barn ni, gallai gwella mynediad at gyngor, egluro a chyfuno cyfreithiau presennol a chynyddu argaeledd ac atgyfnerthu effeithiolrwydd llwybrau unigol at unioni camweddau gael mwy o effaith ar ganlyniadau cyfiawn a theg yn y sector tai cymdeithasol, o gymharu â hawl sydd wedi’i gadarnhau gan bolisi ar dai – er ein bod yn argymhell y dylid mynd i’r afael â phob un o’r elfennau hyn yr un pryd. Mae’n rhaid cydnabod uchelgeisiau o sicrhau hawliau, cydraddoldeb a gweinyddiaeth dda yng Nghymru fel materion o gyfiawnder a dylid ystyried dulliau o unioni camweddau cyfiawnder weinyddol fel dull o gau’r bwloch rhwng polisi a gweithredu, gan sicrhau bod llunwyr polisi a phenderfynwyr yn cael eu dwyn i gyfrif. Mae angen dehongliad ac eglurhad barnwrol mwy annibynnol ac agored o gyfreithiau tai Cymru. Mae angen i gyfreithiau tai lunio penderfyniadau’n rheolaidd ar hawliau cyfreithiol pobl ochr yn ochr â rheoli perthnasoedd. Ond ni ddylid cyflawni’r angen hwn am gyfiawnder fwy ffurfiol ar draul strwythurau llai ffurfiol o gyfiawnder ar y cyd; yn wir pan fo’r strwythurau hyn wedi’u datblygu o lefel llawr gwlad, mae angen eu hannog a’u cefnogi gyda dulliau gwell i nodi materion cymunedol a galluogi pobl i fynd i’r afael â phryderon gyda’i gilydd a chefnogi’r gwersi a ddysgir mewn cyd-destun mwy anffurfiol. Gallai’r mathau hyn o ddatblygiadau gael eu cefnogi gan sefydliadau cynrychioli’r sector tai, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a chyrrff cyfiawnder adferol.**

---

<sup>18</sup> Dr Simon Hoffman (Prifysgol Abertawe) ar gyfer Tai Pawb, the Chartered Institute of Housing Cymru a Shelter Cymru, *Yr hawl i dai digonol yng Nghymru: Adroddiad Dichonoldeb* (Mehefin 2019): <https://www.taipawb.org/wp-content/uploads/2019/06/RightToHousing-ExecSummary-WELSH.pdf>

## Cyfranogwyr yn Ein Ymchwil

Awdurdodau lleol  
Cymdeithasau tai  
Swyddogion Llywodraeth Cymru  
Y Farnwriaeth  
Cyfreithwyr a bargyfreithwyr  
Elusennau  
Melinau Trafod  
Ymarferwyr cyfiawnder adferol  
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus i Gymru  
Sefydliadau cynrychioli tai  
Academyddion  
Sefydliad Cyfiawnder Gweinyddol y DU  
Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol y DU